

Cyfarfodydd Cyhoeddus Cymanfa Gyffredinol

Eglwys Bresbyteriaid Cymru

yng Nghapel y Groes, Bodhyfryd, Wrecsam LL12 7AG
Gorffennaf 9fed-11eg

- ⇒ Nos Lun (9fed) am 7.30 - Gwasanaeth Cymun a Choffâd. Pregethir gan y Parch. Ian Sims, Llanelli.
- ⇒ Dydd Mawrth (10fed) am 11.45 – Y Ddarlith Davies. Darlithydd: Y Parch Wyn Rhys Morris, Aberystwyth. Testun: Rhamantiaeth Hanesyddol a Gwleidyddiaeth Eglwysig yng Nghymru'r 19fed Ganrif.
- ⇒ Nos Fawrth (10fed) am 7.30 – Araith Ymadawol y Llywydd, y Parch. Brian Huw Jones, Prestatyn a Throsglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parch. Brian Matthews, Wrecsam.
- ⇒ Dydd Mercher (11eg) am 11.45 – Darlith y Gymdeithas Hanes. Darlithydd: Dr Gethin H. Matthews. Testun: *Angels, Doves and Minerva: Reading the memorials to the Great War in Welsh Presbyterian chapels.*

I ddod

- **OEDFA I'R FRO** a chyfle i ddiolch i Gwion am ei gyfraniad arbennig i bob oed bore Sul, Gorffennaf 29ain am 10.30 (*Ileoliad i'w gadarnhau*). Yn dilyn yr oedfa, bwriadwn gael barbeciw a phicnic, a chyfle i gymdeithasu. Bydd bara, byrgers a sosejys wedi ei ddarparu i'r rhai fydd wedi rhoi eu henwau i Mair **erbyn dydd Sul, Gorffennaf 22ain**. Cewch ddod â beth bynnag arall fydddech chi'n ei hoffi i'w fwyta a'i yfed hefo chi. Croeso i bawb!
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - ⇒ **Cwrs Ieuentid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
 - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
 - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain*Cofiwch fod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*
- **CYFARFOD GWOBRWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL Â'R FEDAL GEE** dydd Sadwrn, Medi 29ain yn Seilo, Eglwys Unedig Gymraeg Llandudno am 2.00.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 34:1-8 (BCND tud.507 / BCN tud.463)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, Gorffennaf 8^{fed}, 2018

Darlleniad y Dydd

Luc 12:1-3

(BCND tud.80 / BCN tud.73)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi gyd i'r gwasanaethau ar draws Bro Aled bore ma. Wrth i'r tywydd barhau i fod yn gynnes a braf, dewch i ni fanteisio ar y cyfle i dorheulo yng ngogoniant Duw y Goruchaf. Rhown ein hunain o'i flaen gan adael iddo gynhesu a goleuo pob rhan o'n bywydau a'n gwneud ni yn debycach i'r Arglwydd Iesu.

Gyda hynny mewn golwg, tybed faint ohonoch chi sydd â diddordeb mewn pobi? Efallai eich bod yn hoff iawn o'r rhaglen 'Great British Bake Off' ac yn greffttus iawn yn gwneud bara a chacennau o bob math. Ar y llaw arall, mae yna rai ohonom ni yn anobeithiol am bobî. Mi ymgeisiais unwaith yn y brifysgol i bobî bara, ond roedd hi'n debycach i fricsen na thorth yn y pen draw! I ddod at y pwynt, cynhwysyn hollbwysig mewn bara ydy burum. Burum ydy'r peth sy'n galluogi'r does i godi ac i'r dorth fod yn ysgafn a blasus. Mae'r burum yn cael ei gymysgu trwy'r does i gyd, ac yn effeithio ar bob rhan ohono. Mae'n bwysig i ni gofio hyn: dydy burum ddim yn effeithio ar un rhan yn unig, ond ar y cyfan.

Felly, dewch i ni edrych ar ein darlleniad heddiw: Luc 12:1-3. Ar y darlleniad cyntaf, mae'n ymddangos fod y Phariseaid hefyd yn bobyddion brwd gyda'u burum, ond gwelwn mai rhybudd rhag rhagrith ydyw. Y cyhuddiad yn eu herbyn gan Iesu ydy bod eu bywydau cyhoeddus – eu geiriau, gweithredoedd, agweddau ac ymatebion – yn wahanol iawn i'w bywydau preifat. Roedden nhw'n cyhoeddi eu bod yn ddi-bechod, eto roedd eu hagweddau a'u gweithredoedd yn dangos y gwrthwyneb. Yn debyg i furum mewn toes, mae rhagrith yn recriwtio pobl i wneud yr un peth – mae'n ymledu drwy gymdeithas. Wrth ragrithio, mae'r bar yn cael ei osod yn rhy uchel ac yn annog pobl i esgus eu bod yn neidio drosto.

Wrth ddweud ein bod ni'n Gristnogion, rhaid cofio ein bod ni i gyd yn bechaduriaid sydd wedi ein hachub gan ras Duw yn unig. Rhaid i ni beidio ag esgus ein bod ni'n ddi-bechod neu yn well nac unrhyw un arall. Mae dwy adnod olaf ein darlleniad yn gwneud yn glir pam: bydd pob peth yn dod i'r wyneb ryw ddydd o flaen yr Arglwydd, Barnwr cyfiawn y greadigaeth.

"Lock the door, pull down the blind, turn out the light; it does not matter, it makes no difference; God is everywhere, you cannot shut him out or prevent his seeing." Dyma ddyfyniad gan J.C. Ryle o'r 19fed ganrif sy'n disgrifio ein hymgais ni i gelu pethau oddi wrth Duw a'r Byd. Wrth i ni edrych ar ein hunain heddiw, tybed ydym ni'n euog o geisio portreadu ein hunain fel rhywun gwell nag ydym ni go iawn? Ydym ni'n dibynnu ar glod pobl eraill am ein hapusrwydd? Tybed ydym ni'n cynnal bywyd pechadurus yn y dirgelwch gan obeithio na fydd neb yn ffeindio allan amdano?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 8^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies a bydd Gwion yn pregethu.
- Mercher – 11^{eg} ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- **Torri Syched y merched** – seiat am 7.30 (*Ileoliad i'w gadarnhau*).
- Iau – 12^{fed} ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.

Llanfair a Cefn Meiriadog

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 10^{fed} ➤ Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd aelodau eglwysi Peniel a Saron yn mynd ar bererindod i ardal Amwythig.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i ddilyn.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **HEDDIW (8^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Llanefydd a Cefn Berain

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Pwyntiau Gweddi

- ⇒ Doethineb wrth ystyried newidiadau i'r fro dros yr wythnosau nesaf.
- ⇒ Diolch am staff iechyd a gofal a gofyn ar i Duw drugarhau a chynnal y rhai sydd ddim yn dda.
- ⇒ Cymorth yr Ysbryd i ni drysori Crist uwchlaw popeth arall.



Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.